# BWRDD PENSIWN DYDD LLUN, 18 GORFFENNAF 2022

**Yn bresennol**: Osian Richards (Cynrychiolydd Aelodau), H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Aelodau), Sioned Parry (Cynrychiolydd Cyflogwr), Huw Trainor (Cynrychiolydd Cyflogwr) a Sharon Warnes (Cynrychiolydd Aelodau).

**Swyddogion**: Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd**

Cynghorydd Stephen Churchman – Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Hywel Eifion Jones yn Gadeirydd y Bwrdd ar gyfer 2022-23**

Diolchwyd i'r cyn gynghorydd Aled Evans am ei waith fel Cadeirydd y Bwrdd dros y flwyddyn ddiwethaf

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol Mr Huw Trainor yn Is-gadeirydd y Bwrdd ar gyfer 2022-23**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

Amlygodd Cyfarwyddwr y Gronfa, yn dilyn ymadawiad y Cyng Aled Evans, bod swydd wag ar gyfer cynrychiolydd cyflogwyr ar y Bwrdd. Ategodd bod hysbyseb wedi mynd allan i'r Aelodau am enwebiad. Nododd bod tri ymateb wedi ei dderbyn hyd yma ac mai'r dyddiad cau oedd y 1af o Awst 2022

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 04 Ebrill 2022 fel rhai cywir.

## 7. CYFRIFON DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2022

a) Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31ain 2022. Amlygwyd bod y Pennaeth Cyllid, Mr Dewi Morgan, yn ei rôl fel Swyddog Cyllidol Cyfrifol, eisoes wedi ardystio'r cyfrifon drafft a bod y cyfrifon, a oedd wedi eu cwblhau o fewn amserlen heriol, bellach yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru

Adroddwyd bod y cyfrifon yn dilyn ffurf statudol CIPFA gyda'r canllawiau yn dehongli beth sydd i'w gyflwyno yn y cyfrifon. Nodwyd bod y flwyddyn wedi bod yn un brysur i'r gronfa gyda throsglwyddiad marchnadoedd datblygol i Bartneriaeth Pensiwn Cymru, gosod targed sero net, a monitro effaith digwyddiadau megis rhyfel Wcráin. Tynnwyd sylw at Gyfrif y Gronfa gan nodi bod y ffigyrau yn eithaf cyson. Cyfeiriwyd at leihad yn y costau rheoli o flwyddyn 2021/22 (oedd yn eithriad mewn gwirionedd) oherwydd ffioedd uchel gan Partners (oedd yn cyd-fynd a'u perfformiad) a chostau trosglwyddiadau i Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Adroddwyd bod y sefyllfa bellach wedi sefydlogi.

Cyfeiriwyd at gynnydd yng ngwerth marchnad y gronfa o £247 miliwn oedd yn dod a gwerth y gronfa bellach i £2.7biliwn. Nodwyd, yn dilyn cwblhau'r archwiliad bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno am gymeradwyaeth i'r Pwyllgor Pensiynau

Diolchwyd am yr adroddiad.

b) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:
- Bod cynnydd eto yng ngwerth y gronfa hyd ddiwedd Mawrth er gwaethaf ansefydlogrwydd
- Awgrym i nodi perfformiad Gwynedd yn nhermau lefelau cyllideb yn unol â diweddariad annibynnol Hymans Robertson i feini prawf Prisiad Adran 13.

c) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pherfformiad marchnad stoc siomedig, gydag effaith amlwg rhyfel Wcráin a chyfraddau chwyddiant, nodwyd mai dychweliadau tymor hir yw prif amcan y buddsoddi, ac er gwaethaf perfformiad y farchnad stoc, bod cynnydd sylweddol wedi bod ers y prisiad diwethaf

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## 8. PERFFORMIAD BUDDSODDI'R GRONFA BENSIWN 2021/22

a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn hysbysu'r Aelodau o'r gwaith monitro chwarterol (a blynyddol) sydd yn cael ei wneud gan y Panel Buddsoddi ar berfformiad buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn. Adroddwyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd mewn sefyllfa gymharol iach gyda gwerth y gronfa bellach yn £2.7 biliwn ac wedi cynyddu yn raddol ers 2011.

Er cafwyd perfformiad o 10.0% gan y Gronfa, siom oedd bod hyn islaw'r meincnod am y flwyddyn. Er hynny, nodwyd bod sefyllfa fel hyn yn gyffredin i gronfeydd cynlluniau pensiwn llywodraeth leol, a bod perfformiad Cronfa Bensiwn Gwynedd yn parhau i fod o fewn chwartel uchaf cronfeydd Prydain a hynny yn

safle 23 allan o 100.

Yng nghyd-destun perfformiad rheolwyr buddsoddi ecwiti lle gwelwyd canran uchel o fuddsoddiadau'r Gronfa wedi ei buddsoddi, amlygwyd bod y perfformiad, a oedd yn is na'r meincnod, yn cael ei yrru gan berfformiad negyddol Baille Gifford yng ngronfa Global Growth. Ategwyd bod Baillie Gifford wedi perfformio yn wych dros y blynyddoedd blaenorol a phwysleisiwyd pwysigrwydd yn yr angen i asesu dros gyfnod o oleiaf tair blynedd yn y maes yma cyn codi pryderon.

Yng nghyd-destun rheolwyr incwm sefydlog, eglurwyd bod y perfformiad yma hefyd wedi bod islaw'r meincnod gydag ansefydlogrwydd ym marchnad Rwsia. Ategwyd bod y buddsoddiadau hyn yn weddol newydd (wedi dechrau buddsoddi yn y ddwy flynedd diwethaf) ac felly'r sefyllfa yn cael ei monitro'n rheolaidd i sicrhau nad oes lleihad pellach.

Cyfeiriwyd at berfformiad hanesyddol y Gronfa dros y ddegawd ddiwethaf gan nodi pwysigrwydd asesu'r perfformiad dros nifer o flynyddoedd gan mai buddsoddi tymor hir yw'r amcan. Ategwyd bod gwerth y gronfa wedi cynyddu yn raddol ers peth amser, a bod y Gronfa yn safle 7 allan o holl gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol, ac felly wedi perfformio'n dda.

Diolchwyd am yr adroddiad

b) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pherfformiad Baille Gifford a phryd fydd Hymans yn camu i mewn petai perfformiad gwael yn gyffredin dros amryw o flynyddoedd, amlygwyd bod y mater wedi ei drafod yn ddiweddar mewn cyfarfod o Bartneriaeth Pensiwn Cymru lle daethpwyd i'r canlyniad y byddai rhaid ymgynghori gyda'r Bartneriaeth cyn cyflwyno'r farn i'r Cydbwyllgor am benderfyniad. Ategwyd bod Baille Gifford wedi bod yn gyfrifol am berfformiad rhagorol yn flaenorol oedd yn rhoi hyder yn y cwmni. Nodwyd bod trafodaethau yn cael eu cynnal ac er bod y cyfnod yn un ansicr, bod hyder yn eu dewisiadau stoc a chred y daw pethau yn dda.

Ategodd Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau bod rhaid ystyried sicrwydd ansawdd a bod cynnal trafodaethau yn hanfodol.

c) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chysylltiadau i droseddau hawliau dynol trafodwyd datblygiadau cenedlaethol ynghylch materion megis symudiad 'Boycott, Divestment, Sanctions (BDS) gan sicrhau bod y Bwrdd yn ymwybodol o faterion neu honiadau sydd yn codi yn y wasg. Awgrymwyd gwneud cais i'r Rheolwyr, neu i'r Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu (Robeco), am wybodaeth a bod trafodaeth ar y cyd gydag aelodau'r Pwyllgor Pensiynau mewn sesiynau chwarterol gyda Rheolwyr yn cael ei drefnu.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

## 9. DIGWYDDIADAU CRONFA BENSIWN

a) Enwebwyd yr aelodau isod i fynychu'r digwyddiadau

08-09-22 – 09-09-22 LGC Investments Summit, Leeds
Osian Richards

07-12-22 – 09-12-22 Cynhadledd LAPFF, Bournemouth

Osian Richards

19-01-23 – 20-01-23 LGA PF Governance, Caerdydd
Sioned Parry

Nodwyd bod dyddiadau Cynhadledd Carden Park Mawrth 2023 i'w cadarnhau cyn rhannu gwahoddiad

b) Enwebwyd yr aelodau isod i arsylwi Pwyllgorau Pensiwn 2022-23

12-09-22 Huw Trainor
14-11-22 Eifion Jones
18-01-23 Sioned Parry
27-03-23 Sharon Warnes

Yn ychwanegol, bydd gwahoddiad i'r holl aelodau fynychu (Fforwm Cyflogwyr Cronfa Bensiwn Gwynedd (26-10-22) a Chyfarfod Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd (24-11-22)

**10. GWEINYDDIAETH PENSIYNAU**

a) Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Rheolwr Pensiynau yn rhoi trosolwg cyffredinol o weinyddu pensiwn dros y 6 mis diwethaf ynghyd a gwybodaeth am y gwaith a gyflawnwyd dros y cyfnod, diweddariad ar amrywiol brosiectau ynghyd a rhestr o'r heriau yr oedd yr Uned Weinyddu yn eu hwynebu o ddydd i ddydd. Amlygwyd, yn unol â chais y Bwrdd, bod manylion cwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod wedi cael eu cynnwys

Diolchwyd am yr adroddiad.

b) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Er prinder staff a phroblemau recriwtio bod yr uned yn parhau i godi safon
- Yn llongyfarch pedwar aelod o staff am gwblhau cwrs Gradd Sylfaen Mewn Gweinyddu a Rheoli Pensiynau
- Yn llongyfarch y gwelliant ar yr hyn oedd yn dda yn y lle cyntaf
- Bod y gwasanaeth hunanwasanaeth a'r cynllun i-connect yn derbyn sylwadau positif iawn
- Bod yr adroddiad yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod pethau yn mynd i'r cyfeiriad cywir.

c) Mewn ymateb i sylw bod staff wedi cael eu secondio allan o'r uned i gynorthwyo gyda chartrefu ffoaduriaid Wcráin yng Ngwynedd ac a fyddai modd cynnig secondiad i eraill ymuno a'r Tîm, nodwyd nad oedd dewis i ryddhau aelod ar secondiad, ond bod pob ymgais yn cael ei wneud i ddenu staff newydd.

ch) Mewn ymateb i sylw ynglŷn â bod oddeutu 3% o aelodau'r gronfa heb gyfeiriad penodol, awgrymwyd ymweld â'r cyfeiriad a chynnal sgwrs gyda'r aelod ynglŷn â'u cynllun pensiwn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.20 y.h.

**CADEIRYDD**